Cronfa Bensiwn DYFED Pension Fund

# FFEITHLEN AELODAU

## Gostyngiadau neu Gyfyngiadau o ran eich Cyflog Pensiynadwy

Goblygiadau dioddef gostyngiad neu gyfyngiad yn eich Cyflog Pensiynadwy tra'ch bod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)

**Ebrill 2021**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys

Rhagarweiniad

Sut mae fy muddion yn cael eu cyfrifo?

Sut y bydd gostyngiad neu gyfyngiad o ran fy nghyflog yn effeithio ar fy muddion Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi’i Adbrisio?

Os yw'n berthnasol, sut y bydd gostyngiad neu gyfyngiad o ran fy nghyflog yn effeithio ar fy muddion cyflog terfynol?

Enghraifft o'r flwyddyn orau o'r 3 blynedd olaf

Enghraifft o ddefnyddio’r cyflog cyfartalog gorau mewn unrhyw dair blynedd olynol yn 13 blynedd olaf eich cyflogaeth yn diweddu ar 31 Mawrth

Pa fuddion eraill yr effeithir arnynt?

A ydw i'n gallu gwahanu fy muddion os bydd fy nghyflog pensiynadwy yn gostwng?

Cwestiynau a ofynnir yn fynych

Rhagor o Wybodaeth

Ymwadiad

## Rhagarweiniad

Mae'r ffeithlen yn egluro'n gryno beth fydd yn digwydd i'r buddion pensiwn sydd gennych yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL), os bydd eich cyflog pensiynadwy wedi cael neu yn cael ei ostwng neu'i gyfyngu. Mae'n bosib y bydd adolygiad o gyflogau a graddau wedi cael neu'n mynd i gael effaith negyddol ar eich cyflog ac felly mae'n bwysig eich bod yn nodi ac yn ystyried yr effaith ar eich buddion, gan gofio bod y cyfrifiad yn cael ei seilio'n bennaf ar eich cyflog pensiynadwy. Nodwch mai amcangyfrifon yn unig yw'r ffigurau a nodir yn y ffeithlen hon. Darperir y rhain i'ch helpu i ddeall ac enghreifftiau yn unig ydynt.

## Sut mae fy muddion yn cael eu cyfrifo?

O 1 Ebrill 2014, mae'ch pensiwn blynyddol o dan y Cynllun Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio (CARE) yn seiliedig ar y cyflog pensiynadwy a gawsoch ym mlwyddyn y cynllun (1 Ebrill - 31 Mawrth) a'r gyfradd gronni o 1/49fed. Bydd swm y pensiwn rydych wedi'i gronni yn ystod blwyddyn y cynllun yn cael ei gredydu i'ch cyfrif pensiwn Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio (fesul cyflogaeth). Wedyn bydd gwerth cronnol eich cyfrif yn cael ei adbrisio bob mis Ebrill yn unol â'r mynegai costau byw priodol.

Fodd bynnag os oeddech wedi ymaelodi ar 31 Mawrth 2014 neu cyn y dyddiad hwn bydd eich 'aelodaeth cyn 2014' o'r cynllun cyflog terfynol yn parhau i gael ei seilio ar eich cyflog pensiynadwy ar eich ymddeoliad, ond NI FYDD y ffigur hwn yn cynnwys unrhyw daliadau mewn perthynas â goramser digontract (fel y cynllun Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio). Hefyd, defnyddir eich aelodaeth o'r cynllun (wedi'i fesur mewn blynyddoedd a dyddiau) ar 31 Mawrth 2014 i gyfrifo'ch buddion cyflog terfynol, ynghyd â'r gyfradd gronni briodol; 1/80fed ar gyfer yr aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2008 ac 1/60fed o'r dyddiad hwnnw hyd at 31 Mawrth 2014.

Byddwch yn cael cyfandaliad di-dreth awtomatig (3/80fed) ynghyd â phensiwn blynyddol mewn perthynas â'ch aelodaeth hyd at 31 Mawrth 2008. Ond, os gwnaethoch ymaelodi ar/ar ôl 1 Ebrill 2008, NI fyddwch yn cael cyfandaliad di-dreth awtomatig, ond cewch ddewis cyfnewid peth o'ch pensiwn am arian parod di-dreth. Gallwch ildio £1 o bensiwn blynyddol a chael £12 o arian di-dreth yn gyfnewid amdani (yn amodol ar derfynau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi). (Sylwer: mae'r dewis hwn ar gael hefyd i aelodau sydd â'r hawl i gael cyfandaliad di-dreth awtomatig).

## Sut y bydd gostyngiad neu gyfyngiad o ran fy nghyflog yn effeithio ar fy muddion Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio?

O dan y cynllun Cyfartaledd Cyflog Gyrfa wedi'i Adbrisio mae'r pensiwn y byddwch yn ei gronni wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar y cyflog pensiynadwy a gawsoch yn ystod blwyddyn y cynllun ac felly os yw eich cyflog yn llai byddwch yn cronni llai o bensiwn a hynny o'r diwrnod ar ôl i'r gostyngiad cyflog ddigwydd.

## Os yw'n berthnasol, sut y bydd gostyngiad neu gyfyngiad o ran fy nghyflog yn effeithio ar fy muddion cyflog terfynol?

Os gwnaethoch ymaelodi â'r cynllun ar 31 Mawrth 2014 neu cyn y dyddiad hwnnw, bydd eich 'buddion cyflog terfynol' fel arfer wedi'u seilio ar y cyflog pensiynadwy (NI FYDD hyn yn cynnwys taliadau a dderbyniwyd mewn perthynas â goramser digontract) y byddwch wedi'i dderbyn yn 365 diwrnod olaf eich cyflogaeth, gan taw'r cyflog hwn, fel arfer, fydd eich cyflog uchaf oherwydd codiadau cyflog blynyddol ac ati. Fodd bynnag, os bydd gostyngiad neu gyfyngiad o ran eich cyflog bydd y dewisiadau canlynol ar gael i chi:

- Gellir seilio'ch buddion ar un o'r tair blynedd diwethaf o gyflog pensiynadwy (os yw'n uwch na chyflog y 365 diwrnod olaf).
  Y flwyddyn orau o'r 3 blynedd olaf' yw'r enw ar y drefn hon';

- Cewch ddewis seilio'ch buddion ar eich cyfartaledd cyflog mewn unrhyw dair blynedd olynol (wedi'i uwchraddio gan y mynegai costau byw priodol) yn 13 blynedd ddiwethaf y gyflogaeth (yn diweddu ar 31 Mawrth).

Sylwch, os ydych yn gweithio'n rhan-amser fod eich cyflog terfynol mewn perthynas â'ch aelodaeth cyn 2014 yn seiliedig ar eich tâl cyfwerth ag amser llawn.

### Enghraifft o'r flwyddyn orau o'r 3 blynedd olaf

Mae aelod yn ymddeol ar 30 Medi 2020, ond roedd ei gyflog/chyflog pensiynadwy wedi cael ei gwtogi ar 1 Ebrill 2020.

| Cyfraddau Tâl: | Cyfrifo'r Tâl Terfynol: |
|---|---|
| 1 Ebrill 2020 - £14,000 | 1 Hydref 2019 hyd 30 Medi 2020 - £15,994 |
| 1 Ebrill 2019 - £18,000 | 1 Hydref 2018 hyd 30 Medi 2019 - £17,498 |
| 1 Ebrill 2018 - £17,000 | 1 Hydref 2017 hyd 30 Medi 2018 - £16,501 |
| 1 Ebrill 2017 - £16,000 | |

Defnyddir cyflog pensiynadwy **1 Hydref 2018 hyd 30 Medi 2019** i gyfrifo buddion yr aelod hwn.

## Enghraifft o ddefnyddio’r cyflog cyfartalog gorau mewn unrhyw dair blynedd olynol yn 13 blynedd olaf eich cyflogaeth yn diweddu ar 31 Mawrth

I wneud y dewis hwn, mae'n rhaid ichi ysgrifennu at eich Cyflogwr cyn pen mis o'ch dyddiad gadael.  Mae'r enghraifft ganlynol yn dangos y cyfrifiad.

Mae aelod wedi dewis ymddeol ar 30 Medi 2020, ond roedd ei gyflog pensiynadwy wedi gostwng yn Ebrill 2011 (gweler isod).

Cyfraddau Tâl:

| | | |
|---|---|---|
| 1 Ebrill 2020 - £17,500 | **1 Ebrill 2015 - £15,000** | 1 Ebrill 2010 - £17,000 |
| 1 Ebrill 2019 - £17,000 | 1 Ebrill 2014 - £19,000 | 1 Ebrill 2009 - £16,500 |
| 1 Ebrill 2018 - £16,500 | 1 Ebrill 2013 - £18,500 | 1 Ebrill 2008 - £16,000 |
| 1 Ebrill 2017 - £16,000 | 1 Ebrill 2012 - £18,000 | |
| 1 Ebrill 2016 - £15,500 | 1 Ebrill 2011 - £17,500 | |

Cyfrifo'r Cyflog Pensiynadwy:

| Cyfnod (3 blynedd) | Cyflo cyfartalog dros y cyfnod | Codiadau Pensiwn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 1 Ebrill 2017 - 31 Mawrth 2020 | £16,500 | - | £16,500 |
| 1 Ebrill 2016 - 31 Mawrth 2019 | £16,000 | 5.00% | £16,800 |
| 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2018 | £15,500 | 7.00% | £16,585 |
| 1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2017 | £16,500 | 9.00% | £17,985 |
| 1 Ebrill 2013 - 31 Mawrth 2016 | £17,500 | 11.00% | £19,425 |
| **1 Ebrill 2012 - 31 Mawrth 2015** | **£18,500** | **13.00%** | **£20,905** |
| 1 Ebrill 2011 - 31 Mawrth 2014 | £18,000 | 15.00% | £20,700 |
| 1 Ebrill 2010 - 31 Mawrth 2013 | £17,500 | 17.00% | £20,475 |
| 1 Ebrill 2009 - 31 Mawrth 2012 | £16,500 | 19.00% | £19,635 |

Y cyflog pensiynadwy a ddefnyddir fyddai cyfartaledd y cyfnod o **1 Ebrill 2012 hyd at 31 Mawrth 2015**.

## Pa fuddion eraill yr effeithir arnynt?

Pe baech chi'n ymddeol oherwydd salwch parhaol, gallech dderbyn ychwanegiad yn dibynnu ar eich salwch, a hynny'n seiliedig ar eich cyflog pensiynadwy tybiedig ar eich dyddiad gadael. Os yw eich cyflog pensiynadwy yn llai, bydd yr ychwanegiad salwch yn llai yn sgil hynny.

Os byddwch yn marw tra ydych yn cyfrannu'n weithredol i'r cynllun, byddai grant marwolaeth (cyfandaliad) sef tair gwaith eich cyflog pensiynadwy tybiedig yn cael ei dalu yn unol â'ch dymuniad ynghylch y grant marwolaeth, neu i'ch ystâd, os nad oeddech wedi mynegi dymuniad ynghylch y grant marwolaeth. Os bydd eich cyflog pensiynadwy yn gostwng, bydd eich tâl pensiynadwy tybiedig yn llai yn sgil hynny gan olygu y bydd eich grant marwolaeth yn llai o ganlyniad.

Cyfartaledd y cyfnod pensiynadwy a gawsoch yn y 3 mis cyflawn (neu 12 wythnos os cewch eich talu'n wythnosol) cyn y dyddiad gadael/marwolaeth.

## A ydw i'n gallu gwahanu fy muddion os bydd fy nghyflog pensiynadwy yn gostwng?

Os yw eich cyflog pensiynadwy yn gostwng, bydd Cronfa Pensiwn Dyfed yn rhoi'r dewis ichi wahanu eich buddion, pan fydd eich Cyflogwr wedi anfon yr hysbysiad priodol atom. <u>I wahanu eich buddion, bydd yn rhaid ichi ysgrifennu at y Gronfa cyn pen 12 mis o'r dyddiad a bennwyd h.y. blwyddyn ar ôl dyddiad y gostyngiad cyflog.</u>

Os byddwch yn dewis gwneud hyn, bydd unrhyw fuddion a gronnwyd cyn 2014 yn cael eu diogelu o bosib rhag y gyfradd uwch o gyflog pensiynadwy. Gall hwn fod yn ddewis ymarferol os bydd mwy na 13 blynedd cyn eich ymddeoliad. Fodd bynnag, mae rhai materion y gallech fod am eu hystyried cyn gwneud penderfyniad.

Os yw eich cyflog pensiynadwy pan fyddwch yn ymddeol yn uwch na swm eich cyflog cyn y gostyngiad, gallai'r buddion sy'n daladwy o'r ddau gyfnod gwahanol fod yn llai na phe baech wedi parhau ag un cyfnod aelodaeth. (Fodd bynnag, bydd gwerth eich buddion gohiriedig yn cynyddu'n flynyddol yn unol â'r mynegai costau byw perthnasol).

Ni fydd unrhyw ddiogeliad o ran y rheol 85 mlynedd a all fod yn berthnasol i'ch buddion gohiriedig yn berthnasol i'ch ail aelodaeth. Ystyr hyn yw y gall yr ail set o fuddion gael eu lleihau yn sgil talu buddion yn gynnar, os cânt eu talu cyn ichi gyrraedd oedran pensiwn arferol h.y. oedran pensiwn y wladwriaeth.

Os ydych yn wynebu dileu eich swydd (neu os terfynir eich cyflogaeth am resymau effeithlonrwydd) a chithau wedi cyrraedd 55 oed neu'n hŷn, bydd y buddion rydych wedi'u cronni yn eich aelodaeth bresennol yn daladwy ar unwaith (heb eu lleihau), ond NI fydd eich buddion gohiriedig yn cael eu talu.

Cewch ddewis derbyn eich buddion gohiriedig ar ôl cyrraedd 55 oed, ond efallai y bydd gostyngiad yn y buddion hyn, yn dibynnu ar ddiogeliad y Rheol 85 mlynedd. I gael rhagor o wybodaeth am y rheol 85 mlynedd, darllenwch ffeithlen y Rheol 85 mlynedd.

Os ydych chi'n talu Cyfraniadau Rheolaidd Ychwanegol neu Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol, neu os ydych chi'n prynu aelodaeth ychwanegol, ni fyddwch yn gallu trosglwyddo'r trefniadau hyn i'ch aelodaeth newydd (os byddwch yn dewis gwahanu eich buddion).

Os ydych yn dewis gwahanu eich buddion, bydd y gyfran o'r buddion ychwanegol rydych wedi'u prynu hyd at ddyddiad y gostyngiad cyflog yn cael ei chredydu i chi, a'i chynnwys wrth gyfrifo'ch buddion gohiriedig.

Sylwch na fyddwch yn cael dechrau contract arall ar gyfer Cyfraniadau Rheolaidd Ychwanegol neu gontract aelodaeth ychwanegol yn eich aelodaeth newydd, gan nad yw'r dewisiadau hyn bellach yn rhan o reoliadau'r cynllun.  Fodd bynnag, byddwch yn gallu prynu pensiwn ychwanegol trwy gontract Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol, ond bydd cost gwneud hynny yn uwch, gan fod yr ad-daliad yn cael ei gyfrifo yn unol â'r ffactorau oed a ddarparwyd gan Adran Actiwari'r Llywodraeth.

Os ydych chi'n talu Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, byddwch yn gallu parhau â'r trefniadau hyn yn eich cyfnod aelodaeth newydd. Gofalwch, fodd bynnag, fod y didyniadau'n gywir.  Fel arall, os ydych am roi'r gorau i'r cyfraniadau hyn cysylltwch â Chronfa Bensiwn Dyfed.

## Cwestiynau a ofynnir yn fynych

- Os ydw i'n dewis defnyddio ffigur cyflog blaenorol i gyfrifo fy muddion cyflog terfynol, e.e. cyflog cyfartalog y tair blynedd orau allan o 13 blynedd, a fyddaf ar fy ngholled oherwydd chwyddiant?

  *Na fyddwch. Rydym yn uwchraddio'r ffigur cyflog cynharach yn unol â'r cynnydd priodol mewn costau byw.*

- Os yw fy nghyflog yn gostwng oherwydd fy mod wedi dewis gweithio llai o oriau, a gaf i ddewis defnyddio'r diogeliadau a ddisgrifiwyd?

  *Na chewch.  Cewch ddefnyddio diogeliadau cyflog terfynol yn unig os bydd gostyngiad gwirioneddol yn eich cyflog pensiynadwy cyfwerth ag amser llawn.*

- A ydw i'n gallu defnyddio'r diogeliad os ydw i wedi bod yn derbyn tâl honorariwm a hwnnw bellach wedi dod i ben?

  *Os buoch yn derbyn 'taliadau pensiynadwy ychwanegol' sydd wedi darfod cyn ichi ymddeol, bydd modd ichi ddefnyddio cyfrifiad ar sail y flwyddyn orau o'r tair blynedd olaf, ond NI fyddwch yn gallu defnyddio'r cyflog cyfartalog gorau a gawsoch mewn unrhyw dair blynedd olynol yn 13 blynedd olaf eich cyflogaeth.*

- Mae mwy na 13 blynedd cyn imi ymddeol, a fydd y diogeliad hwn yn fy helpu i o hyd?

  *Gall y diogeliad hwn eich helpu o hyd os cewch eich gorfodi i ymddeol oherwydd salwch neu os ydych yn cyrraedd 55 oed a bod eich swydd yn cael ei dileu neu fod eich cyflogaeth yn cael ei therfynu am resymau effeithlonrwydd.  Hefyd, pe baech yn gadael y cynllun byddai eich buddion yn debygol iawn o gael eu gohirio ac felly gellid defnyddio'r diogeliadau hyn i gyfrifo'ch buddion cyflog terfynol.*

- A fydd fy nghyfradd gyfrannu'n newid os oes gostyngiad yn fy nghyflog?

  *Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn defnyddio trefniadau bandiau cyfrannu a gall gostyngiad yn eich cyflog Pensiynadwy olygu bod eich cyfradd gyfrannu yn is. Cysylltwch â'ch Cyflogwr i gael rhagor o wybodaeth ynghylch y mater hwn.*

## Rhagor o Wybodaeth

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth neu os oes gennych gwestiynau ynghylch eich Amgylchiadau personol, cofiwch gysylltu â Gronfa Bensiwn Dyfed.

## Ymwadiad

Nid yw Gronfa Bensiwn Dyfed yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y ffeithlen hon, efallai yr hoffech gael cyngor ariannol annibynnol er mwyn gwneud penderfyniad deallus.

Gallai'r cyrff hyn eich helpu chi:

Unbiased: https://unbiased.co.uk/
Gwasanaeth Cyngor Arian:
https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/choosing-a-financial-adviser